# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

DRAFT

**Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ionawr 13eg 2026**

**1.** **Presennol. Cynghorwyr:**
**Gwilym Jones (Cadeirydd), Dr. Melfyn Edwards (Is-gadeirydd), Alwyn Gruffydd, Karena Owens, Jeremy Davies, Llywelyn Rhys, Glenda Murray, Michael Roberts, Aled Griffith**
**Elfyn Lewis (Clerc)**

**Absennol: Cyng. Edward Naish**

**2.** **Ymddiheuriadau. Cynghorydd: Carol Hayes**

**3.** **Cadarnhau cywirdeb cofnodion:-**
**a) Cyfarfod Llawn Rhagfyr 9fed 2025**
**Cafwyd yn gywir. Cynnig. Alwyn Gruffydd. Eilio. Jeremy Davies.**

**4.** **Adroddiad y Cadeirydd:**
**Diolch i chi am fynychu cyfarfod cyntaf 2026 ar ddechrau oer iawn i'r flwyddyn newydd. Yn anffodus, daeth 2025 i ben gyda damwain drasig ar y ffordd osgoi a arweiniodd at ddau ddyn ifanc yn colli eu bywydau. Ar ran Cyngor y Dref, byddwn yn cydymdeimlo â'r teuluoedd yn y digwyddiad trasig hwn**

**Roedd 2025 yn flwyddyn eithaf prysur i'r Cyngor gyda nifer dda o brosiectau bach yn cael eu cychwyn a'u gorffen a rhai yn parhau i'r flwyddyn gyfredol.**

**Gan gynnwys:-**
**Arwyddion cyfeirio stryd newydd.**
**Stripiau llechi yn y palmentydd.**
**Meinciau newydd yn disgwyl cel eu gosod.**
**Roedd goleuadau Nadolig newydd ar goed y parc yn boblogaidd.**

**Daeth tacluso'r coed o amgylch Bryn Coffa â sylwadau cadarnhaol hefyd.**
**Mae trefniadau gyda'r Grid Cenedlaethol yn golygu y bydd gennym ardal chwarae newydd gydag offer newydd yng Nghae Bodawen a bydd bron i £30,000 o iawndal maes o law, a ddylai gael ei gyfeirio at blant a fydd yn colli allan ar gyfleusterau chwarae tra bod y gwaith yn mynd rhagddo.**
**Rydym hefyd wedi bod yn ffodus i gael Elfyn fel ein Clerc a'n swyddog ariannol cyfrifol sydd wedi dod â'i wybodaeth helaeth am y Dref i'r gwaith.**
**Eleni dylem barhau i erfyn ar BIPBC i drefnu cyfleuster Gofal Sylfaenol newydd yn y dref gan fod amser yn mynd heibio mor gyflym.**

**5.** **Adroddiad y Clerc:**
**1. Bryn Coffa.**
Mae Cyngor Gwynedd am fynd a'r torchau o'r gofgolofn yn ystod Mis Ionawr.

**Rota cynnal a chadw Bryn Coffa 2026**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | IONAWR | **Y Clerc** |
| 2 | CHWEFROR | Cyng Gwilym Jones |
| 3 | MAWRTH | Cyng Alwyn Gruffydd |
| 4 | EBRILL | Cyng Glenda Murray |
| 5 | MAI | Cyng Michael Roberts |
| 6 | MEHEFIN | Cyng Karena Owens |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | GORFFENNAF | Cyng Aled Griffith |
| 8 | AWST | **Y Clerc** |
| 9 | MEDI | Cyng Gwilym Jones |
| 10 | HYDREF | Cyng Dr Melfyn Edwards |
| 11 | TACHWEDD | Cyng Llywelyn Rhys |
| 12 | RHAGFYR | Cyng Jeremy Davies |

**2. Cae Chwarae Bodawen.**

Mae'r darn o dir sydd heb ei gofrestru wrth eiddo Cyngor Tref Porthmadog yn Cae Chwarae Bodawen yn eiddo i'r Grid Cenedlaethol eisoes. Bu cryn drafodaeth ynglyn a phwy oedd berchen y tir ond roedd yr hen Gyngor Tref wedi ei werthu rai blynyddoedd yn ol.

**3. Diffibrilwyr**

Mae pob un o'r diffibrilwyr mae Cyngor Tref Porthmadog yn gyfrifol amdanynt wedi ei diweddaru gyda'r manylion diweddaraf ar wefan y Circuit arlein. Mae batris a padiau newydd wedi eu gosod yn diffibrilwyr Lidl a Meithrinfa Hen Ysgol fydd yn parhau am y dair mlynadd nesa.

Ar ol i'r Swyddfa Bost gau yn ddiweddar, mae angan penderfynu beth mae'r Cyngor Tref am ei wneud gyda'r diffibrilydd ar y wal y tu allan i'r adeilad. Bydd angen darganfod pwy sydd berchen ar hen adeilad Y Post a cysylltu a nhw er mwyn cael gwybod os y bydd yn iawn i adael y diffibrilydd yno ai peidio. Os na, bydd angen cael lleoliad newydd iddo.

**4. Cae Pawb.**

Mae biliau am 2026 wedi ei gyrru i'r tenatiaid.

Mae angan i Gymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb sortio grant Cist Gwynedd allan. I'w drafod o dan Gohebiaeth.

**5. Nadolig.**

Mi roedd un bil heb ei dderbyn cyn cyflwyno y ffigwr am y gost o weithgareddau Nadolig 2025 sef anfoneb Cyngor Gwynedd am osod a mynd a'r coed Nadolig o'r safleoedd.

**6. Grant Gwynedd Ni.**

Y meinciau wedi cyrraedd. Aros i adeiladydd lleol eu rhoi nhw yn eu lle.

Angan cwblhau popeth cyn Ionawr 31.

Raciau beics. Mae angan caniatad Cyngor Gwynedd i'w osod ar maes parcio Llyn Bach.

**6. Datgan diddordeb.**

Dim datganiad.

**7. CEISIADAU CYNLLUNIO:**

- YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO: Rhif Cais: C25/0872/44/AC - Hafrodle Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY
  Cais i ddiwygio amod 2 (cynlluniau cymeradwy) o ganiatad cynllunio (C23/0565/44/DT).
  **Dim gwrthwynebiad**.

- YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO: Rhif Cais: C25/0900/44/DT - Tŷ Gwyn Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UU
  Newidiadau i ddyluniad y to ac i fynediad y safle.
  **Dim gwrthwynebiad.**

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF:**

Penderfynwyd i godi praesept Cyngor Tref Porthmadog am y flwyddyn ariannol 2026-7 o £73,658.30 i £76,015.36 sef codiad o 3.2% (sef chwyddiant Tachwedd 2025).

Cynnig Llywelyn Rhys. Eilio. Alwyn Gruffydd. Derbynwyd yn unfrydol.

Nododd Y Cyng. Llywelyn Rhys y bydd yn absennol o'r cyfarfodydd am y dyfodol agos.

**9. MATERION I'W DWYN GERBRON:**

- Cyng. Carol Hayes :- Cynnig bod Y Cyngor Tre yn hysbysebu seddi gwag yn fwy rheolaidd.
  **Ni drafodwyd yn absenoldeb y Cyng. Carol Hayes.**
- Cyng. Jeremy Davies :- Cynnig bod Y Cyngor Tre yn cysylltu gyda'r Swyddfa Bost i nodi bod

cwsmeriaid yn gorfod ciwio ar y palmant y tu allan i'r adeilad newydd a hynny ar adegau o law.
**Derbynwyd yn unfrydol. Cyng. Jeremy Davies yn cynnig. Cyng. Glenda Murray yn eilio. Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Y Swyddfa Bost i godi'r mater ac i nodi pryderon Cyngor Tref Porthmadog a trigolion lleol**.

- Cyng. Alwyn Gruffydd:- Cynnig bod Y Cyngor Tre yn cysylltu gyda'r Swyddfa Bost i ofyn paham bod y Saesneg uwchben Y Gymraeg ar yr arwydd tu allan i'r swyddfa newydd.
**Derbynwyd yn unfrydol. Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Glenda Murray yn eilio. Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Y Swyddfa Bost i egluro pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg yn y dref a'r ardal cyfagos.**

- Cyng. Jeremy Davies :- Cynnig i Gyngor Gwynedd glirio'r holl dwf o'r llwybr troed sy'n arwain o Heol Ralph i fyny'r grisiau yng nghefn Heol Merswy.

Rhesymeg:
Mae Cyngor Tref Porthmadog yn talu ffi flynyddol o tua £200 i Gyngor Gwynedd am gynnal a chadw'r llwybr hwn. Hyd y gwyddom ni, nid yw'r llwybr troed hwn wedi cael sylw nac wedi derbyn unrhyw waith cynnal a chadw dros y 10 mlynedd diwethaf.
Camau Gweithredu Arfaethedig:
Os caiff ei gymeradwyo, bydd clerc y cyngor yn gofyn i Gyngor Gwynedd glirio'r holl dwf o'r llwybr troed sy'n arwain o Stryd Ralph i fyny'r grisiau yng nghefn Stryd Merswy neu fel arall ad-dalu Cyngor Tref Porthmadog y gost flaenorol o gael y gwaith wedi'i wneud gan gontractwr cymeradwy.

**Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i sicrhau bod y llwybr yn cael ei glirio.**

10. **Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**.
Dim.

**11. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb:**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Steffan Jones (Cyngor Gwynedd) | Holi am paham mae arwydd Stryd Dulyn yn Nhremadog wedi diflannu. **Y Clerc i gysylltu gyda Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i holi pan nad oes ateb wedi dod i'r ymholiad gan Cyngor Tref Porthmadog.** |
| **2** | Cyngor Gwynedd | Aros am ymateb i ymholiad am gyflwr llwybr Cae Llety (arlein). **Y Clerc i gysylltu gyda Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i holi pan nad oes ateb wedi dod i'r ymholiad gan Cyngor Tref Porthmadog.** |
| | | |
| | | |

**12. GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Bleddyn Rhys (Cyngor Gwynedd) | Archwiliad Mewnol 2026. **Derbyn y wybodaeth.** |
| 2 | Ruhi Pugh - fishergerman | Diweddariad Cae Chwarae Bodawen. **Derbyn y wybodaeth.** |
| 3 | Amy Jones (Cyngor Gwynedd) | Diweddariad Arwyddion Newydd Porthmadog. **Derbyn y wybodaeth.** |
| 4 | Cyngor Gwynedd | Praesept – Sylfaen Treth Cymunedau Gwynedd. **I'w drafod yn ystod y drafodaeth am osod y Praesept am 2006-7.** |
| 5 | Cist Gwynedd | Grant Cae Pawb. **Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb oedd wedi gwneud y cais. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i egluro mai nid mater i'r Cyngor Tref ydyw.** |
| 6 | Menter Mon | Wi-fi Cymunedol |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | **Y Clerc i gysylltu gyda Menter Mon i'w gwahodd i gyfarfod Y Cyngor Tre yn ystod y blwyddyn i drafod y sefyllfa.** |
| | | |

**<u>13. MATERION ARIANNOL</u> :**

**Taliadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Pauline Williams<br>Rheolwraig Y Ganolfan | Noson Goleuo Port | £1183.14 |
| 2 | Glasdon Ltd | Meinciau Newydd (Pres Grant) | £4501.73 |
| 3 | Defib store (arlein) | 2 x padiau diffibrilwyr newydd | £139.20 |
| 4 | Y Clerc | Llinell We a Ffon y Clerc Rhagfyr 2025 | £60-67 |
| 5 | Y Clerc | Cyflog y Clerc Rhagfyr 2025 | £1408.48 |
| 6 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Rhagfyr 2025 | £352.14 |
| 7 | Williams a Williams | Cludiant Coed Nadolig | £330 |

**Awdurdodwyd y taliadau uchod. Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Jeremy Davies yn eilio.**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog banc | £41.12 |
| Cyngor Gwynedd | Taliad Meysydd Parcio | £9300.20 |
| Breese Gwyndaf | Rhan-daliad Y Grid Cenedlaethol. (Cae Chwarae Bodawen). | £7259.33 |

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Elfyn Lewis (Clerc)
Ionawr 17, 2026

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*

DRAFT